

Trosolwg

Etholiad Senedd Cymru Mai 2021: Ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau

Mae'r ddogfen hon ar gyfer
ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau sy'n
ymgyrchu mewn etholiad Senedd
Cymru ym mis Mai 2021

Ffurflenni eraill y gall fod eu
hangen arnoch:

Adroddiad ar Wariant yr
Ymgyrch
Ffurflen rhoddion

Cynnwys:

Y cyfnod a reoleiddir

Terfynau gwario

Gofynion adrodd

Dyddiadau a digwyddiadau allweddol

Cyfieithiadau a fformatau eraill

I gael gwybodaeth am sut i gael y cyhoeddiad hwn mewn iaith arall, neu mewn print bras neu Braille, cysylltwch â'r Comisiwn Etholiadol:

Ffôn: 020 7271 0500

E-bost: cyhoeddiadau@comisiwnetholiadol.org.uk

Mae'r ddogfen hyn
ar gael yn Saesneg
[yma](#)

Termau ac ymadroddion a ddefnyddiwn

Rydym yn defnyddio '**rhaid**' wrth gyfeirio at ofyniad penodol. Rydym yn defnyddio '**dylai**' ar gyfer eitemau sydd yn arfer da gofynnol yn ein barn ni, ond nad ydynt yn ofynion cyfreithiol neu reoleiddiol.

Nid oes rhaid i chi ddilyn y canllawiau hyn, ond os gwnewch hynny, byddwch fel arfer yn gwneud digon i gydymffurfio â'r gyfraith.

Ein dull gorfodi

Mae'r Comisiwn yn rheoleiddio cyllid a gwariant gwleidyddol mewn modd sy'n effeithiol, cymesur, a theg. Rydym yn ymrwymedig sicrhau bod y rheiny a reoleiddiwn â dealltwriaeth glir o'u rhwymedigaethau rheoleiddio trwy ein canllawiau a'n gwasanaeth cyngor. Os nad ydych yn siŵr sut mae'r rheolau hyn yn gymwys atoch chi, ffoniwch ni am gyngor. Rydym yma i'ch helpu, felly cysylltwch â ni.

Rydym yn defnyddio cyngor a chanllawiau mewn modd rhagweithiol i sicrhau cydymffurfiaeth. Ac rydym yn cymryd camau gorfodi, gan ddefnyddio ein pwerau a'n cosbau ymchwilio, lle bo'n angenrheidiol a chymesur gwneud felly, er mwyn bodloni ein nodau a'n hamcanion gorfodi.

Os nad ydych yn cydymffurfio â gofynion cyfreithiol neu reoleiddiol, gallech chi neu eich sefydliad fod yn destun cosbau sifil neu droseddol. Mae rhagor o wybodaeth am rôl reoleiddiol y Comisiwn ar gael trwy www.electoralcommission.org.uk/cy/pwy-ydym-ni-a-beth-rydym-yn-ei-wneud/gorfodi

1

Etholiad Senedd Cymru Mai 2021: Ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau

Mae'r ddogfen hon yn esbonio:

Y rheolau ar wariant yr ymgyrch, rhoddion a gofynion adrodd ar gyfer ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau, yn ystod y cyfnod cyn yr etholiadau ar gyfer Senedd Cymru a gynhelir ar 6 Mai 2021.

Cynhelir yr etholiadau canlynol hefyd ar 6 Mai 2021:

- Senedd yr Alban
- Etholiadau llywodraeth leol yn Lloegr
- Etholiadau maerol awdurdodau lleol a chyfun yn Lloegr
- Etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throsedd yng Nghymru a Lloegr
- Awdurdod Llundain Fwyaf

I gael gwybodaeth am yr etholiadau hyn gweler ein gwefan [yma](#).

Os ydych yn ymgyrchu mewn mwy nag un rhan o'r DU yn 2021, dylech gyfeirio at ein canllawiau: [Rheolau priodoli ar gyfer ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau](#). Mae'r rheolau priodoli yn ymdrin â'r modd y rhennir y gwariant rhwng yr etholiadau yng Nghymru a'r Alban.

2

Mae'r ddogfen hon yn ymdrin â'r canlynol:

- newidiadau allweddol i'r canllawiau
- y cyfnod a reoleiddir
- terfynau gwario
- rhoddion
- pryd mae'n rhaid i chi gofrestru â ni
- gofynion adrodd
- dyddiadau a digwyddiadau allweddol

Dogfennau cysylltiedig:

Mae'r canllawiau hyn yn rhoi trosolwg o'r rheolau mewn perthynas ag etholiadau ar gyfer Senedd Cymru. Dylech gyfeirio at y dogfennau canllaw isod i gael esboniadau manylach o'r rheolau.

- [Trosolwg o ymgyrchoedd nad ydynt yn bleidiau](#)
- [Taflen ffeithiau ar gyfer ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau: argraffnodau](#)
- [Cofrestru fel ymgyrchydd nad yw'n blaid](#)
- [Rheoli gwariant ar ymgyrchu rhai nad ydynt yn bleidiau](#)
- [Trosolwg o ymgyrchu rhai nad ydynt yn bleidiau a reoleiddir](#)
- [Cyd-ymgyrchu ar gyfer ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau.](#)
- [Sefyllfaoedd a gweithdrefnau: Rheolau priodoli ar gyfer ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau](#)

Ffurflenni y gall fod eu hangen arnoch:

- [Adroddiad ar Wariant yr Ymgyrch gan ymgyrchydd nad yw'n blaid](#)
- [Ffurflen rhoddion gan ymgyrchydd nad yw'n blaid](#)

3

Newidiadau allweddol i'r canllawiau ar gyfer etholiadau mis Mai 2021

Mae nifer o newidiadau i'r canllawiau eleni o ganlyniad i newidiadau deddfwriaethol cynlluniedig.

Mae'r rheolau a nodir yn y canllawiau hyn yn adlewyrchu'r gyfraith fel y disgwyliwn iddi fod ar ddechrau'r cyfnod a reoleiddir.

Os bydd y gyfraith yn newid, byddwn yn diweddarau'r canllawiau a'n gwefan yn unol â hynny.

Mater	Newid	Tudalen
Dyddiadau ar gyfer 2021	Y cyfnod a reoleiddir	9
	Adrodd ar ôl yr etholiad	27-29
Rheolau cofrestru	<p>Mae disgwyl i'r rheolau ynghylch y mathau o endidau sy'n gallu cofrestru fel ymgyrchydd di-blaid newid ar ôl 31 Rhagfyr 2020.</p> <p>Mae'r newidiadau hyn wedi eu hadlewyrchu yn y canllaw hwn. Os bydd y rheolau hyn yn newid yn annisgwyl, byddwn yn diweddarau ein canllawiau a'r wefan yn briodol.</p>	14-15
Rheolau rhoddion	<p>Mae disgwyl i'r rheolau parthed rhoddion newid o 31 Rhagfyr 2020 ymlaen.</p> <p>Mae'r newidiadau hyn wedi eu hadlewyrchu yn y canllaw hwn. Os bydd y rheolau hyn yn newid yn annisgwyl, byddwn yn diweddarau ein canllawiau a'r wefan i adlewyrchu hynny.</p>	23-24

4

Crynodeb

Mae pleidiau gwleidyddol, ymgeiswyr ac ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau yn hollbwysig ar gyfer democratiaeth iach ac rydym yn annog cyfranogiad gweithredol gan ymgyrchwyr. Er bod cryn wariant ar ymgyrchu, mae yna reolau y mae'n rhaid eu dilyn er mwyn sicrhau bod y system yn dryloyw.

O dan Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 (PPERA), mae rheolau ar faint y gall ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau ei wario ar weithgarwch ymgyrchu a reoleiddir yn y cyfnod cyn rhai etholiadau ac adrodd ar roddion a gwariant ar ôl yr etholiad.

Mae'r ddogfen hon yn nodi rheolau PPERA ar y cyfnodau a reoleiddir, terfynau gwario a gofynion adrodd, yn y cyfnod cyn yr etholiadau ar gyfer Senedd Cymru a gynhelir ym mis Mai 2021.

Cyflwyniad

Unigolion neu sefydliadau yw ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau sy'n ymgyrchu yn y cyfnod cyn etholiadau, ond nad ydynt yn sefyll fel pleidiau gwleidyddol nac ymgeiswyr. Yn ôl cyfraith etholiadol, gelwir yr unigolion neu'r sefydliadau hyn yn 'drydydd partïon'. Lle mae ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau wedi cofrestru â'r Comisiwn Etholiadol fe'u gelwir yn "drydydd partïon cydnabyddedig". Yn ein canllawiau rydym yn galw trydydd partïon cydnabyddedig yn 'ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau'.

Cyn etholiadau, rydym yn cyhoeddi canllawiau penodol ar gyfer ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau sy'n nodi'r terfynau gwario, y cyfnod a reoleiddir a'r dyddiadau cau ar gyfer adrodd mewn perthynas â'r etholiad penodol a gynhelir. Mae'r canllawiau hyn yn ymdrin â'r rheolau yn y cyfnod cyn etholiadau ar gyfer Senedd Cymru yng Nghymru.

Mae gennym ganllawiau penodol ar gyfer ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau sy'n ymgyrchu mewn mwy nag un rhan o'r DU:

[Sefyllfaoedd a Gweithdrefnau: Rheolau priodoli ar gyfer ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau.](#)



Mae gennym ganllawiau hefyd ar gyfer ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau sy'n ymgyrchu yn yr etholiadau canlynol:

- [Senedd yr Alban](#)

a thafleuni ffeithiau ar gyfer ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau sy'n ymgyrchu yn lleol yn yr etholiadau canlynol:

- [Etholiadau llywodraeth leol yn Lloegr](#)
- [Etholiadau ar gyfer Awdurdod Llundain Fwyaf](#)
- [Etholiadau ar gyfer Comisiynwyr Heddlu a Throseddau yng Nghymru a Lloegr](#)

6

Y mathau o ymgyrchoedd rhai nad ydynt yn bleidiau

Mae dau fath o ymgyrch gan rai nad ydynt yn bleidiau, sef:

- **Ymgyrchoedd lleol:** ymgyrchoedd gan rai nad ydynt yn bleidiau dros neu yn erbyn un neu fwy o ymgeiswyr mewn etholaeth, ward neu ardal etholiadol arall benodol, (er enghraifft, ymgeisydd etholaethol yn yr etholiadau ar gyfer Senedd Cymru, neu ymgeisydd ar gyfer oliad Comisiynwyr Heddlu a Throseddau mewn ardal etholiadol).
- **Ymgyrchoedd cyffredinol:** ymgyrchoedd gan rai nad ydynt yn bleidiau dros neu yn erbyn plaid wleidyddol, neu gategoriâu penodol o ymgeisydd, gan gynnwys ymgyrchoedd ar bolisiâu neu faterion sy'n gysylltiedig iawn â phlaid benodol neu gategori o ymgeiswyr (er enghraifft, ymgeiswyr mewn grŵp oedran penodol).

Mae rheolau gwahanol yn gymwys i'r ddau fath hyn o ymgyrch.

Mae'r rheolau ar ymgyrchoedd cyffredinol yn gymwys i'r etholiadau canlynol yn 2021:

- etholiadau ar gyfer Senedd Cymru a Chomisiynwyr Heddlu a Throseddau yng Nghymru
- Senedd yr Alban

Mae'r rheolau ar ymgyrchoedd lleol yn gymwys i **bob** etholiad a gynhelir yn y DU ar 6 Mai 2021.

Rhaid i wariant ar ymgyrchoedd cyffredinol ar gyfer etholiadau Comisiynwyr Heddlu a Throseddau yng Nghymru gael ei gynnwys mewn unrhyw ffurflen gwariant ar gyfer etholiadau Senedd Cymru, a bydd yn cyfrif tuag at y terfyn gwario ar gyfer etholiadau Senedd Cymru yn 2021.



7

Pwy sy'n rheoleiddio ymgyrchoedd?

Ymgyrchoedd lleol

Yn etholiadau'r Senedd, gall y rheolau ymgyrchu lleol gael eu cymhwyso at ymgyrchoedd o blaid neu yn erbyn ymgeisydd etholaethol neu ymgeisydd rhanbarthol annibynnol.

Bydd ymgyrchoedd o blaid neu yn erbyn ymgeiswyr ar restr plaid yn cael eu cwmpasu gan y rheolau cyffredinol ynghylch ymgyrchu di-blaid.

Os byddwch yn ymgyrchu o blaid neu yn erbyn ymgeisydd **etholaethol** bydd gennych derfyn o **£500**.

Os byddwch yn ymgyrchu o blaid neu yn erbyn ymgeisydd **rhanbarthol** bydd gennych derfyn o **£1,000**.

Ceir rhagor o wybodaeth ynghylch dyddiadau pleidleisio, a phryd y daw pobl yn ymgeiswyr, ar ein [tudalen canllawiau ar gyfer ymgeiswyr ac asiantiaid](#).

Dylech gadw cofnod o'ch gwariant, i sicrhau nad ydych yn mynd dros y terfyn gwario.

Rhaid i unrhyw wariant dros y trothwyon hyn gael eu hawdurdodi gan asiant yr ymgeisydd perthnasol. Bydd y gwariant awdurdodedig yn cyfri fel gwariant ymgeisydd tuag at derfyn gwario'r ymgeisydd.

Os awdurdodir y gwariant, bydd angen i'r asiant gynnwys eich gwariant yng nghofnod gwariant yr ymgeisydd. Bydd angen i chi roi'r manylion angenrheidiol i'r asiant er mwyn i'r gwariant hwnnw gael ei gynnwys.

Os byddwch yn gwario dros y terfyn, bydd rhaid i chi gwblhau cofnod a'i anfon ymlaen at y Swyddog Canlyniadau ymhen 21 diwrnod i ddatgan y canlyniad. Gellir cael hyd i'r cofnod ar gyfer ymgyrchwyr di-blaid [fan hyn](#).

Nid yw'r Comisiwn Etholiadol yn rheoleiddio ymgyrchu lleol, a dylai cwynion ynghylch torri'r rheolau sy'n gymwys at ymgyrchoedd lleol gael eu cyflwyno i'r heddlu

8

Ymgyrchoedd cyffredinol

Rheoleiddir ymgyrchoedd cyffredinol gan y Comisiwn Etholiadol.

Os ydych yn ymgyrchu dros neu yn erbyn pleidiau gwleidyddol neu gategoriâu o ymgeiswyr, neu bolisiâu neu faterion sy'n gysylltiedig iawn â phlaid benodol neu gategori o ymgeiswyr (er enghraifft, ymgeiswyr mewn grŵp oedran penodol) efallai y bydd angen i chi gofrestru gyda ni a dilyn y rheolau ar wariant ar ymgyrchu, rhoddion a dulliau adrodd.

Mae gweddill y canllawiau hyn yn ymdrin â'r rheolau ar ymgyrchu cyffredinol yn etholiadau Senedd Cymru yng Nghymru yn 2021.

Y cyfnod a reoleiddir

Yn y cyfnod cyn rhai etholiadau, bydd adeg benodol pan fydd y rheolau ar wariant a rhoddion yn gymwys. Gelwir hyn yn 'gyfnod a reoleiddir'. Bydd y rheolau'n amrywio, yn dibynnu ar ba etholiad a gynhelir.

Caiff gwariant ar weithgarwch ymgyrchu a reoleiddir ei reoleiddio yn y cyfnod cyn etholiadau 2021 yng Nghymru. Mae'r cyfnod a reoleiddir ar gyfer etholiad Senedd Cymru yn 2021 yn dechrau ar **6 Ionawr 2021** ac yn dod i ben ar y diwrnod pleidleisio, **6 Mai 2021**.

Bydd gwariant ar weithgarwch ymgyrchu a reoleiddir ar gyfer etholiadau Comisiynwyr Heddlu a Throseddu yng Nghymru yn cyfrif tuag at y terfyn gwario ar gyfer etholiadau Senedd Cymru.



Gall y dyddiadau hyn newid os gohirir yr etholiad oherwydd y pandemig COVID-19. Byddwn yn cyhoeddi diweddariad ar ein gwefan os gwneir unrhyw newidiadau i'r dyddiadau hyn gan y Senedd.

Beth sy'n cyfrif fel gwariant ar ymgyrchu a reoleiddir?

Yn ystod y cyfnod a reoleiddir mae rheolau ynghylch faint y gall ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau ei wario ar 'weithgarwch ymgyrchu a reoleiddir'.

Bydd y canlynol yn weithgarwch ymgyrchu a reoleiddir, os gellir ystyried yn rhesymol mai bwriad y gweithgarwch yw dylanwadu ar bleidleiswyr dros neu yn erbyn pleidiau gwleidyddol neu categorïau o ymgeiswyr, gan gynnwys pleidiau gwleidyddol neu categorïau o ymgeiswyr sydd o blaid neu yn erbyn polisïau neu faterion penodol (gelwir hyn yn '**brawf diben**')

- cynadleddau i'r wasg neu ddigwyddiadau eraill i'r cyfryngau a drefnir gennych
- cludiant mewn cysylltiad â rhoi cyhoeddusrwydd i'ch ymgyrch

Yn ogystal â bodloni'r prawf diben, dim ond os yw'r gweithgareddau **hefyd** wedi eu hanelu at y cyhoedd, neu wedi eu gweld neu eu clywed ganddynt, neu yn ymwneud â hwy (gelwir hyn yn '**brawf cyhoeddus**') y caiff gwariant ar y gweithgareddau hynny ei reoleiddio: mae hyn yn gymwys i'r canlynol:

- cynhyrchu neu gyhoeddi deunydd etholiadol
- canfasio ac ymchwil i'r farchnad (gan gynnwys y defnydd o fanciau ffôn)
- raliâu a digwyddiadau cyhoeddus eraill

Caiff y gwariant ar unrhyw un o'r gweithgareddau hyn ei reoleiddio os gellir ystyried yn rhesymol mai bwriad y gweithgarwch yw dylanwadu ar bleidleiswyr i bleidleisio dros neu yn erbyn plaid wleidyddol, neu gategorïau o ymgeiswyr, gan gynnwys ymgyrchoedd ar bolisiâu neu faterion sy'n gysylltiedig â phlaid benodol neu gategori o ymgeiswyr. Gelwir hyn yn 'wariant ar ymgyrchu a reoleiddir'.

Cewch ragor o wybodaeth am yr hyn a gaiff ei ystyried yn weithgarwch ymgyrchu a reoleiddir yn ein canllawiau: [Rheoli gwariant ar ymgyrchu y rheiny nad ydynt yn bleidiau](#)

Terfynau Gwario

Bydd eich terfyn gwario yn dibynnu ar b'un a ydych yn cofrestru â'r Comisiwn Etholiadol fel ymgyrchydd cofrestredig nad yw'n blaid. Dim ond rhai mathau o unigolion a sefydliadau a all gofrestru â ni.

Os na wnewch gofrestru, neu os nad ydych yn gymwys i gofrestru, ni allwch wario mwy na **£10,000 yng Nghymru** yn ystod y cyfnod a reoleiddir ar weithgarwch ymgyrchu a reoleiddir.

Os cofrestrwch â ni, bydd gennych derfyn gwario o **£30,000 yng Nghymru**.

Gall y terfynau hyn gael eu hadolygu os gohirir yr etholiad oherwydd y pandemig COVID-19. Byddwn yn cyhoeddi diweddariad ar ein gwefan os gwneir unrhyw newidiadau i'r terfynau hyn.



Mae rhagor o wybodaeth am wneud cais i gofrestru fel ymgyrchydd nad yw'n blaid ar gael yn ein canllawiau:

[Cofrestru fel ymgyrchydd nad yw'n blaid](#)

Priodoli eich gwariant

Yn ystod y cyfnod a reoleiddir, mae terfynau gwario ar gyfer gwahanol rannau Deyrnas Unedig. Mae gan bob rhan o'r DU sydd â chyfnod a reoleiddir derfyn gwario. Rhaid i chi aros o fewn y terfyn gwario ar gyfer pob rhan wahanol.

Rhan o'r DU	Terfyn gwario
Cymru	£30,000
Yr Alban	£75,800

Os ydych yn ymgyrchydd cofrestredig nad yw'n blaid, ceir rheolau ar sut y mae'n rhaid i'ch gwariant gael ei briodoli ar draws rhannau gwahanol o'r Deyrnas Unedig **os** ydych yn ymgyrchu mewn mwy nag un rhan o'r DU. Gelwir y rhain yn 'rheolau priodoli'. Rhaid i chi sicrhau eich bod yn aros o fewn y terfynau gwario sy'n gymwys ar gyfer pob rhan o'r DU.

Wrth gynllunio eich ymgyrch, dylech fod yn ymwybodol o'r holl derfynau gwario sy'n gymwys a phryd y bydd angen i chi briodoli gwariant ledled Cymru a'r Alban.

Os na ddilynwch y rheolau priodoli yn ofalus, gallech dorri'r terfynau gwario.

Dylech gynllunio eich gwariant ymlaen llaw a chyfrifo cyfran y gwariant y bydd angen ei phriodoli i rannau gwahanol o'r DU **cyn** mynd i wariant.

Nid yw'r rheolau priodoli yn gymwys i ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau anghofrestredig. Fodd bynnag, rhaid i chi gofrestru â ni os bwriadwch wario **mwy na £10,000 yng Nghymru neu yr Alban**.

I gael gwybodaeth am briodoli eich gwariant darllenwch ein canllawiau: [Sefyllfaoedd a Gweithdrefnau: Rheolau priodoli ar gyfer ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau](#).



Cofrestru â ni

Pwy all gofrestru?



Dim ond y mathau canlynol o unigolion neu sefydliadau a all gofrestru a dod yn ymgyrchydd cofrestredig nad yw'n blaid:

- unigolyn sydd wedi'i gofrestru ar un o gofrestrau etholwyr y DU, neu sy'n preswyllo yn y DU
- plaid wleidyddol sydd wedi'i chofrestru yn y DU (gan gynnwys 'pleidiau llai')
- cwmni sydd wedi'i gofrestru yn y DU ac wedi ei **gorffori yn y DU** ac yn cynnal busnes yn y DU
- undeb llafur sydd wedi'i gofrestru yn y DU
- cymdeithas adeiladu sydd wedi'i chofrestru yn y DU
- partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig sydd wedi'i chofrestru yn y DU ac sy'n cynnal busnes yn y DU
- cymdeithas lesiant, diwydiannol, darbodus neu adeiladu sydd wedi'i chofrestru yn y DU
- cymdeithas anghorfforedig sydd wedi'i lleoli yn y DU ac sy'n cynnal y rhan fwyaf o'i busnes neu weithgareddau eraill yn y DU
- corff sydd wedi ei gorffori gan Siarter Frenhinol
- sefydliad corfforedig elusennol yn y DU
- partneriaeth Albanaid sy'n cynnal busnes yn y DU

Wedi i'r DU adael yr UE, disgwylir newidiadau i'r rheolau cofrestru ddiwedd 2020 a fydd yn gymwys at y DU gyfan. Mae'r newidiadau hyn wedi eu hadlewyrchu yn y rhestr hon.

Am ragor o wybodaeth gweler tudalen 15.

I gael rhagor o wybodaeth am gofrestru fel ymgyrchydd gweler:

[Sefyllfaoedd a gweithdrefnau: cofrestru fel ymgyrchydd nad yw'n blaid](#)

Os byddwch yn cofrestru â ni, bydd gennych derfyn gwario uwch. Ar ôl i chi gofrestru, bydd yn rhaid i chi ddilyn rheolau o ran rhoddion, gwariant a dulliau adrodd.

Newidiadau i reolau cofrestru



Mae llywodraeth y DU wedi newid y gyfraith o ran y math o endidau sy'n gallu cofrestru gyda ni fel ymgyrchydd di-blaid. Ar ôl 31 Rhagfyr 2020, ni all yr endidau canlynol gofrestru:

- cwmnïau sydd wedi'u hymgorffori yn un o aelod-wladwriaethau eraill yr UE
- unigolion a sefydliadau yn Gibraltar

Mae'r newidiadau hyn wedi eu hadlewyrchu yn y canllaw hwn.

Erys yn bosib i lywodraeth y DU ohirio, diddymu, neu newid y cyfreithiau hyn. Bydd rhaid i unrhyw un sy'n bwriadu cynnal gweithgarwch ymgyrchu a reoleiddir sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r sefyllfa gyfredol cyn gwario dros y terfyn cyfreithiol.

Os bydd y rheolau hyn yn newid yn annisgwyl, byddwn yn diweddarau ein canllawiau a'r wefan i adlewyrchu hynny. Os bydd y newidiadau hyn yn effeithio arnoch chi, cysylltwch â ni am gyngor.

Pryd mae'n rhaid i chi gofrestru â ni?

Os ydych:

- yn gwario ar weithgarwch ymgyrchu a reoleiddir, **ac**
- yn bwriadu gwario **mwya na £10,000 yng Nghymru** yn ystod y cyfnod a reoleiddir,

rhaid i chi gofrestru â ni fel ymgyrchydd nad yw'n blaid. Cewch ragor o wybodaeth am gofrestru â ni yn ein canllawiau:

[Cofrestru fel ymgyrchydd nad yw'n blaid.](#)

Gallwch gofrestru â ni ar unrhyw adeg cyn neu yn ystod y cyfnod a reoleiddir, ond **rhaid** i chi gofrestru â ni **cyn** i chi wario **mwya na £10,000 yng Nghymru** ar weithgarwch ymgyrchu a reoleiddir yn ystod cyfnod a reoleiddir.

Os na fyddwch yn cofrestru, neu os nad ydych yn gymwys i gofrestru, ni allwch wario mwy na **£10,000 yng Nghymru** ar weithgarwch ymgyrchu a reoleiddir yn ystod cyfnod a reoleiddir.

Os credwch y gallech wario mwy na **£10,000 yng Nghymru**, dylech gadw cofnodion o'ch gwariant a'ch rhoddion rhag ofn y gwnewch gofrestru yn ddiweddarach yn y cyfnod a reoleiddir.

Nid oes angen i chi gofrestru â ni:

- os nad ydych yn gwario arian ar weithgarwch ymgyrchu a reoleiddir, neu;
- os ydych yn gwario llai na £10,000 yng Nghymru yn ystod y cyfnod a reoleiddir, neu;
- os ydych yn ymgyrchu y tu allan i gyfnod a reoleiddir

Er bod y canllawiau hyn yn esbonio'r rheolau ar gyfer Cymru, rhaid i chi gofrestru â ni os bwriadwch wario mwy na £10,000 yng Nghymru neu yr Alban.

Os gwnaethoch gofrestru ar gyfer Etholiad Cyffredinol Senedd y Deyrnas Unedig

Bydd eich cofrestrriad yn para 15 mis o'r dyddiad y gwnaethoch gyflwyno hysbysiad cofrestru i ni, ond os disgwylir iddo ddod i ben yn ystod cyfnod a reoleiddir, caiff ei ymestyn yn awtomatig hyd at ddiwedd y cyfnod hwnnw a reoleiddir.

Y cyfnod a reoleiddir ar gyfer 2021 yw 6 Ionawr - 6 Mai 2021 ac nid oes angen i chi ailgofrestru os bydd 12 mis wedi mynd heibio ers i chi gofrestru yn y cyfnod a reoleiddir hwnnw a'ch bod yn gwario dros **£10,000 yng Nghymru neu yr Alban** ar weithgarwch ymgyrchu a reoleiddir ar etholiadau Senedd Cymru neu Senedd yr Alban yn 2021. Os gwnaethoch wario dros **£10,000 yng Nghymru neu yr Alban** bydd angen i chi adrodd ar eich gwariant ar gyfer yr etholiadau hynny.

Daw eich cofrestrriad i ben ar y diwrnod pleidleisio oni fyddwch wedi adnewyddu eich cofrestrriad.

Os hoffech adnewyddu eich cofrestrriad, gallwch ddefnyddio [PEF Online](#) neu anfon [Ffurflen TP3](#) atom heb fod yn gynt nag 11 mis ar ôl eich hysbysiad gwreiddiol a heb fod yn hwyrach na 15 mis wedi hynny. Daw eich hysbysiad i ben os nad ydych yn gwneud cais i adnewyddu eich cofrestrriad yn ystod y cyfnod hwn.

Sut i wneud cais i ddod yn ymgyrchydd cofrestredig nad yw'n blaid

Os hoffech gofrestru, gwnewch gais ar-lein drwy ymweld â [PEF Online](#). Fel arall, gallwch gofrestru â ni drwy gwblhau [Ffurflen TP1](#) ac anfon y ffurflen lofnodedig atom trwy e-bost. Yng nghydestun y pandemig COVID-19, fe'ch anogwn i wneud cais ar-lein.

18

Pan dderbyniwn eich cais, byddwn yn ystyried y wybodaeth a ddarparwyd gennych ac yn cadarnhau yn ysgrifenedig pan fydd eich hysbysiad mewn grym.

Bydd eich cofrestriad yn para am 15 mis o'r dyddiad y gwnaethoch anfon hysbysiad cofrestru atom. Adlewyrchir y dyddiad hwn yn y [gofrestr ymgyrchwyr di-blaid](#).

Beth sydd angen i chi ei wneud ar ôl i chi gofrestru?

Ar ôl i chi gofrestru â ni, rhaid i chi gydymffurfio â rheolaethau gwario a rhoddion a gofynion adrodd.

Fel trosolwg, rhaid i chi wneud y canlynol:

- cael system ar waith ar gyfer awdurdodi gwariant ar weithgarwch ymgyrchu a reoleiddir
- cadw anfonebau neu dderbynebau ar gyfer taliadau dros £200 a wneir fel rhan o'ch gwariant ar weithgarwch ymgyrchu a reoleiddir
- ein hysbysu ar ôl yr etholiad am wariant ar weithgarwch ymgyrchu a reoleiddir os ydych wedi gwario mwy na £10,000 yng Nghymru
- cadarnhau y gallwch dderbyn unrhyw roddion a gewch sydd dros £500 a'u cofnodi
- cydymffurfio â'r gofynion adrodd ar gyfer rhoddion a gewch ar gyfer gwariant ar weithgarwch ymgyrchu a reoleiddir

I gael rhagor o wybodaeth am sut i gofrestru, gweler ein canllawiau: [Cofrestru fel ymgyrchydd nad yw'n blaid.](#)

Gallwch gael rhagor o wybodaeth am roddion a'r gofynion adrodd yn y dogfennau canllaw canlynol:

- [Rheoli gwariant ar ymgyrchu rhai nad ydynt yn bleidiau](#)
- [Trosolwg o roddion ar gyfer ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau](#)

Ymgyrchoedd ar y Cyd

Os ydych yn gweithio gydag ymgyrchwyr eraill nad ydynt yn bleidiau, gall hyn effeithio ar eich terfynau gwario a ph'un a oes angen i chi gofrestru fel ymgyrchydd nad yw'n blaid.

Efallai y penderfynwch gydweithio ag ymgyrchwyr eraill nad ydynt yn bleidiau ar ymgyrchoedd rheoledig fel rhan o gynllun neu drefniant wedi'i gydlynu y bwriedir iddo gyflawni diben cyffredin. Galwn yr ymgyrchoedd hyn yn 'ymgyrchoedd ar y cyd'.

Mae sawl ffordd wahanol y gallwch gydweithio ag ymgyrchwyr eraill fel rhan o ymgyrch ar y cyd:

- gallwch fod yn ymgyrchydd nad yw'n blaid sy'n gweithio gydag ymgyrchwyr eraill
- gallwch fod yn rhan o 'ymgyrch arweiniol' naill ai fel 'ymgyrchydd arweiniol' neu 'ymgyrchydd llai'
- gallwch fod yn ymgyrchydd nad yw'n blaid sy'n gweithio gydag ymgyrchwyr eraill lle mae o leiaf un ymgyrchydd arweiniol ac ymgyrchydd llai

Os bydd ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau yn cydweithio fel rhan o ymgyrch ar y cyd, bydd eu gwariant ar ymgyrchu a reoleiddir yn cyfrif tuag at derfyn gwario pob ymgyrchydd nad yw'n blaid dan sylw.

Bydd rheolau gwahanol yn gymwys yn dibynnu ar sut y byddwch yn gweithio ag ymgyrchwyr eraill nad ydynt yn bleidiau yn eich ymgyrch ar y cyd. I gael rhagor o wybodaeth am ymgyrchoedd ar y cyd, gweler ein canllawiau: [Ymgyrchu ar y cyd ar gyfer ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau](#)

Rhoddion

Fel rhan o'r cais i ddod yn ymgyrchydd cofrestredig nad yw'n blaid, rhaid i chi benodi 'unigolyn cyfrifol'. Mae'r unigolyn cyfrifol yn gyfrifol am gydymffurfio â'r rheolau o dan PPERA a rhaid iddo sicrhau y glynir wrth y rheolau ar roddion.

Mae hyn yn cynnwys cynnal systemau addas er mwyn sicrhau yr ymdrinnir â rhoddion yn gywir. Rhaid i chi sicrhau bod gennych systemau ar waith i gadarnhau a allwch dderbyn y rhoddion a chofnodi manylion y rhoddion fel y gallwch eu nodi ar y ffurflen wariant ar ôl yr etholiad.

Beth yw rhodd?

Rhodd yw arian, nwyddau, eiddo neu wasanaethau a roddir:

- tuag at eich gwariant ar ymgyrchu a reoleiddir
- heb godi tâl neu ar delerau anfasnachol

ac mae ganddi werth o dros £500.

Mae enghreifftiau cyffredin o roddion yn cynnwys:

- rhodd arian neu fath arall o eiddo
- nawdd neu ddigwyddiad neu gyhoeddiad
- tanysgrifiad neu daliadau ymlyniad
- defnydd am ddim, neu am bris gostyngol arbennig, o eiddo neu gyfleusterau, er enghraifft defnydd am ddim o swyddfa

O dan PPERA, ni fydd unrhyw beth sydd â gwerth o £500 neu lai yn rhodd.

Pa fath o roddion y mae'r rheolau yn eu cwmpasu?

Mae'r rheolau'n cwmpasu pob rhodd a roddir tuag at eich gwariant ar weithgarwch ymgyrchu a reoleiddir hyd yn oed os ydych yn eu derbyn cyn dechrau'r cyfnod a reoleiddir.

Rhaid i chi gadarnhau y gallwch dderbyn y rhoddion hyn. Os defnyddiwch y rhoddion hyn ar wariant ar weithgarwch ymgyrchu a reoleiddir, rhaid i chi eu nodi ar eich ffurflen wariant ymgyrchu ar ôl yr etholiad. Am y rheswm hwn, rhaid i chi gadw cofnodion o roddion a gewch.

Nid yw'r rheolau'n cwmpasu:

- arian a gewch tuag at wariant nas rheoleiddir. Er enghraifft, taflenni a gynhyrchwch ac a ddefnyddiwch cyn i'r cyfnod a reoleiddir ddechrau
- arian a roddir ar gyfer gweithgarwch ymgyrchu nas rheoleiddir

Gallwch gael rhagor o wybodaeth am roddion yn ein canllawiau:

[Rhoddion i ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau](#)

Oddi wrth bwy y gallwch dderbyn rhoddion?

Dim ond o ffynhonnell a ganiateir y gallwch dderbyn rhoddion.



Ffynhonnell a ganiateir yw:

- unigolyn sydd wedi'i gofrestru ar un o gofrestrau etholwyr y DU, gan gynnwys etholwyr tramor a'r rhai sy'n gadael cymynroddion
 - cwmni sydd wedi'i gofrestru yn y DU ac sy'n **gwmni corfforedig yn y DU** ac sy'n cynnal busnes yn y DU
 - undeb llafur sydd wedi'i gofrestru yn y DU
 - cymdeithas adeiladu sydd wedi'i chofrestru yn y DU
- partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig sydd wedi'i chofrestru yn y DU ac sy'n cynnal busnes yn y DU
- cymdeithas lesiant sydd wedi'i chofrestru yn y DU
 - cymdeithas anghorfforedig sydd wedi'i lleoli yn y DU ac sy'n cynnal busnes neu weithgareddau eraill yn y DU

Gallwch hefyd dderbyn rhoddion gan fathau penodol o ymddiriedolaethau. Cysylltwch â ni am gyngor o ran sut mae cadarnhau derbynioldeb ymddiriedolaethau.

Ni ddylech dderbyn rhoddion o ffynhonnell nas caniateir. Mae hyn yn cynnwys plaid wleidyddol.

Newidiadau i reolau derbynioldeb



Mae llywodraeth y DU wedi newid y gyfraith o ran pwy sy'n gallu cyflwyno rhoddion i ymgyrchwyr di-blaid cofrestredig. O 31 Rhagfyr 2020 ymlaen, ni ellir derbyn rhoddion gan y canlynol:

- cwmnïau sydd wedi'u hymgorffori yn un o aelod-wladwriaethau eraill yr UE
- unigolion a sefydliadau yn Gibraltar

Erys y rhoddwyr hyn yn dderbyniol hyd at y dyddiad hwn. Mae'r newidiadau hyn wedi eu hadlewyrchu yn y canllaw hwn.

Erys yn bosib i lywodraeth y DU ohirio, diddymu, neu newid y cyfreithiau hyn. Mae rhaid i'r person cyfrifol sicrhau eu bod yn gyfredol â'r sefyllfa cyn derbyn rhoddion a allai gael eu heffeithio.

Os bydd y rheolau hyn yn newid yn annisgwyl, byddwn yn diweddarau ein canllawiau a'r wefan i adlewyrchu hynny. I gael rhagor o wybodaeth am roddion, gweler ein canllawiau:

- [Rhoddion i ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau](#)
- [Sefyllfaoedd a Gweithdrefnau: Yr hyn a ganiateir ar gyfer ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau](#)

Adrodd ar wariant ar ymgyrchu a reoleiddir a rhoddion

Os ydych yn gwario neu'n bwriadu gwario mwy na £10,000 yng Nghymru neu yr Alban rhaid i chi gofrestru â ni fel ymgyrchydd nad yw'n blaid a'n hysbysu am eich holl wariant ar ymgyrchu a reoleiddir.

Yn eich cofnodion, dylech gynnwys pa gategori o wariant y mae pob eitem yn syrthio iddo. Bydd angen i chi anfon y wybodaeth hon atom ar eich ffurflen gwariant ar ôl yr etholiad. Rhaid i chi gadw anfonebau neu dderbynebion ar gyfer unrhyw daliadau dros £200.

Gofynion adrodd ar gyfer gwario

Ar gyfer pob eitem o wariant, dylech nodi'r wybodaeth ganlynol ar eich ffurflen gwariant:

- ar gyfer beth roedd y gwariant - er enghraifft, taflenni neu hysbysebu
- enw a chyfeiriad y cyflenwr
- y swm neu'r gwerth
- ar ba ddyddiad y gwnaethoch wario'r arian

Eitemau a roddir am ddim

Os cewch eitemau am ddim rhaid i chi nodi gwerth marchnad llawn yr eitem (y gwariant tybiannol).

Gallwch ganfod sut i wneud hyn yn ein canllawiau: [Rheoli gwariant ymgyrchu rhai nad ydynt yn bleidiau](#)

Mae rhagor o wybodaeth am ein hysbysu am eich gwariant ar ôl yr etholiad ar gael yn ein canllawiau ar:

[Rheoli gwariant ar ymgyrchu rhai nad ydynt yn bleidiau](#)



Eitemau a roddir am bris gostyngol anfasnachol

Os cewch eitemau am bris gostyngol anfasnachol o fwy na 10%, ac mae'n werth fwy na £200, rhaid i chi nodi gwerth marchnad llawn yr eitem (y gwariant tybiannol).

Gofynion adrodd ar gyfer rhoddion

Rhaid i chi ein hysbysu am rai rhoddion fel rhan o'ch ffurflen gwariant. Rydym yn cyhoeddi'r adroddiadau hyn ar ein gwefan. Nid ydym yn cyhoeddi cyfeiriadau unigolion sy'n rhoddwyr.

Ar ôl yr etholiad rhaid i chi nodi:

- manylion pob rhodd nas caniateir
- pob rhodd a dderbyniwyd dros £7,500
- pob rhodd a dderbyniwyd sy'n gwneud cyfanswm o fwy na £7,500 gan yr un rhoddwr
- cyfanswm yr holl roddion eraill a dderbyniwyd a oedd yn werth mwy na £500 a llai na £7,500 neu a oedd yn cyfateb i hynny. Nid oes angen i chi roi rhagor o wybodaeth am y rhoddion hyn.

Gofynion adrodd a dyddiadau cau ar ôl yr etholiad

Os ydych wedi cofrestru â'r Comisiwn Etholiadol fel ymgyrchydd nad yw'n blaid, rhaid i chi ein hysbysu am eich rhoddion a'ch gwariant ar ôl yr etholiad os byddwch yn gwario mwy na **£10,000 yng Nghymru neu yr Alban.**

Gall y dyddiadau hyn newid os gohirir yr etholiad oherwydd y pandemig COVID-19. Byddwn yn cyhoeddi diweddariad ar ein gwefan os gwneir unrhyw newidiadau i'r dyddiadau hyn gan y Senedd.

Caiff unrhyw wariant tybiannol sy'n werth **dros £500** ei ddsbarthu hefyd fel rhodd, a rhaid ei nodi fel rhodd ar eich ffurflen gwariant.

I gael rhagor o wybodaeth, gweler y ddogfen hon:

[Trosolwg o roddion i Ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau](#)

Terfynau amser ar gyfer derbyn a thalu anfonebau

Mae terfynau amser lle mae'n **rhaid** i'r unigolyn cyfrifol:

- chi, os ydych yn ymgyrchydd unigol; neu
- yr unigolyn a enwebwyd yn eich cais i gofrestru, os ydych yn sefydliad,

dderbyn a thalu pob anfoneb ar gyfer eich gwariant ar ymgyrchu o fewn terfynau amser:

Rhaid i chi dderbyn eich holl anfonebau ar neu cyn **7 Mehefin 2021**.

Rhaid i chi dalu pob anfoneb ar neu cyn **5 Gorffennaf 2021**.

Adrodd ar wariant a rhoddion

Rhaid i chi adrodd ar eich gwariant ar ymgyrchu a reoleiddir a'ch rhoddion ar ôl yr etholiad.

Y dyddiad cau ar gyfer adrodd ar eich gwariant ar ymgyrchu a'ch rhoddion yw dydd **Gwener 6 Awst 2021**.

Os ydych yn postio eich ffurflen, rydym yn argymhell eich bod yn ei phostio mewn pryd i gyrraedd erbyn y diwrnod gwaith olaf cyn y dyddiad cau fan pellaf.

Mae rhagor o wybodaeth ynghylch ein hysbysu am eich gwariant a'ch rhoddion ar ôl yr etholiadau ar gael yn ein canllawiau: [Rheoli gwariant ar ymgyrchu rhai nad ydynt yn bleidiau](#)

Gallwch roi gwybod am eich gwariant a'ch rhoddion drwy PEF Online. Ewch i:
<https://pefonline.electoralcommission.org.uk/cymru/Default.aspx>

Gallwch hefyd ddefnyddio'r ffurflenni hyn i'n hysbysu am eich gwariant a'ch rhoddion ar ôl yr etholiad:

- [Adroddiad ar Wariant yr Ymgyrch gan ymgyrchydd nad yw'n blaid](#)
- [Dychwelyd rhoddion gan ymgyrchydd nad yw'n blaid](#)

Dyddiadau a digwyddiadau allweddol

Mae'r tabl yn dangos y dyddiadau a'r digwyddiadau allweddol ar gyfer ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau yn yr etholiadau ar gyfer Senedd Cymru yn 2021:

Gall y dyddiadau hyn newid os gohirir yr etholiad oherwydd y pandemig COVID-19. Byddwn yn cyhoeddi diweddariad ar ein gwefan os gwneir unrhyw newidiadau i'r dyddiadau hyn gan y Senedd.

Digwyddiad	Dyddiad	Cam Gweithredu
Y cyfnod a reoleiddir yn dechrau	6 Ionawr 2021	Sicrhewch fod gennych systemau ar waith i gofnodi'ch holl wariant
Diwrnod pleidleisio a diwedd y Cyfnod a Reoleiddir	6 Mai 2021	
Dyddiad cau ar gyfer derbyn anfonebau	7 Mehefin 2021	Gwnewch yn siŵr eich bod wedi derbyn eich holl anfonebau ar neu cyn y dyddiad hwn
Dyddiad cau i dalu anfonebau	5 Gorffennaf 2021	Gwnewch yn siŵr eich bod wedi talu eich holl anfonebau ar neu cyn y dyddiad hwn
Dyddiad cau ar gyfer cyflwyno eich ffurflen gwariant	6 Awst 2021	Rhaid i chi gyflwyno eich ffurflen gwariant i ni erbyn y dyddiad hwn

Sut y gallwn helpu:

Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn y canllawiau a awgrymwyd gennym yn y ddogfen hon, neu gallwch weld ein hystod lawn o ganllawiau a'n hadnoddau diweddaraf ar ein gwefan [yma](#)

Gallwch gysylltu â ni ar y rhif ffôn neu'r cyfeiriad e-bost isod. Rydym yma i helpu, felly cysylltwch â ni.

Ewch i <http://www.comisiwnetholiadol.org.uk>

E-bostiwch neu ffoniwch ni:

- Cymru: 0333 103 1929
gwytbodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk
- Cyffredinol: 0333 103 1928
pef@electoralcommission.org.uk

Rydym yn croesawu adborth ar ein canllawiau - e-bostiwch ni yn: pef@electoralcommission.org.uk